Pobl & Gwaith | People & Work

Adroddiad Blynyddol 2019

Adroddiad blynyddol Pobl a Gwaith 2019

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol Pobl a Gwaith ar gyfer 2019. Mae Pobl a Gwaith yn elusen fach ac uchelgeisiol sy'n ceisio deall gwahaniaethau cymdeithasol ac economaidd a mynd i'r afael â'r rhain a hyrwyddo addysg fel cyfrwng i leihau anghydraddoldebau. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn heriol ond, er gwaethaf yr ansicrwydd mawr sy'n wynebu ein sefydliad a'r cymunedau a'r sefydliadau rydym yn gweithio gyda nhw, mae pobl wedi cyd-dynnu, gan ddangos eu bod yn benderfynol o gael effaith gadarnhaol ar fywydau lleol (fel y nodir isod a thrwy gydol yr adroddiad hwn).

Drwy ein prosiect What We Say, gwnaeth pobl ifanc o'r Rhondda ddatblygu sgiliau ymchwilio a dadansoddi, a ddefnyddiwyd ganddynt i drafod materion a oedd o bwys iddyn nhw. Yn ogystal â datblygu sgiliau a dyfnhau ymwybyddiaeth o broblemau lleol, mae'r prosiect wedi hwyluso cyflogaeth am dâl a gwirfoddol a dylanwadau ar ddewisiadau pobl ifanc yn y dyfodol. Mae ein gwaith i gefnogi ymarfer corff, iechyd, a ffitrwydd yn y Rhondda wedi parhau, gan ymestyn cyfleoedd i bobl o bob oed i gymryd rhan mewn chwaraeon a'i fwynhau—o rygbi dan gerdded i bobl hŷn i her ffitrwydd grŵp i bobl ifanc, mae ein prosiect Play It Again Sport (PIAS) yn creu cyfle i bawb ddechrau symud. Wrth i'r angen am sgiliau digidol barhau i ehangu, felly hefyd y mae ein prosiect Appening Rhondda, sy'n creu cyfle i bobl ifanc dyfu eu sgiliau digidol a'u hyder mewn amgylchedd cefnogol gyda mynediad i arbenigedd y diwydiant. Mae'r prosiect wedi helpu staff addysgu TG i ddeall yn well sut i ymgysylltu â phobl ifanc yn ogystal ag arwain at gyflogaeth am dâl i chwech o bobl ifanc.

Yn ogystal â'n gwaith prosiect, cawsom ein comisiynu i gyflawni prosiectau ymchwil a gwerthuso ar gyfer sawl sefydliad, gan gynnwys dau brosiect ar raddfa fawr i Lywodraeth Cymru—un yn gwerthuso'r diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth i Gymru a'r llall yn edrych ar anghenion cymorth cyflogaeth a sgiliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Rydym hefyd wedi parhau ein

hymrwymiad i gynyddu gallu ac adnoddau sector gwirfoddol Cymru, drwy Talwrn, rhwydwaith sy'n rhoi cyfle i'w aelodau ddatblygu sgiliau a chael cymorth gan gymheiriaid.

Rydym yn gwybod bod Pobl a Gwaith yn helpu pobl a chymunedau i lwyddo. Rydym am adeiladu ar ein llwyddiannau hyd yma a chreu mwy o gyfleoedd i bobl feithrin sgiliau ar gyfer eu dyfodol, ac i gymunedau deimlo'n iach, bod yn egnïol, a meddu ar y gallu a'r adnoddau i arwain sydd eu hangen i fynd i'r afael â heriau lleol.

Gyda dymuniadau gorau,



Rosa Robinson

Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Amcanion a gweithgareddau

Amcanion yr elusen yw datblygu addysg drwy gynnal neu helpu i gynnal ymchwil ac astudiaeth i'n problemau cymdeithasol ac economaidd er lles y cyhoedd; yn ychwanegol, i hyrwyddo addysg ym mhob mater sy'n ymwneud â sefydliadau cymunedol.

Mae Pobl a Gwaith yn ceisio gwneud gwahaniaeth drwy ddwy swyddogaeth graidd:

- hyrwyddo gwerth addysg a dysgu (i bob grŵp oedran) fel dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a hyrwyddo cyflogaeth, drwy raglen o brosiectau ymchwil weithredu yn y gymuned; ac
- ymgymryd â gwaith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd ar gyfer y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yng Nghymru gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn meysydd fel addysg (ffurfiol ac anffurfiol), iechyd a chyflogaeth.

Mae gwaith ymchwil sydd wedi'i hunangynhyrchu Pobl a Gwaith yn cael ei gyllido drwy ymddiriedolaethau a chronfeydd elusennol. Daw incwm a enillir o waith ymchwil a gwerthuso a gomisiynwyd a wnaed ar gyfer y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol. Mae unrhyw warged a enillir drwy'r contractau ymchwil a gwerthuso yn mynd i waith ymchwil weithredu sy'n ceisio meithrin dealltwriaeth o ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau addysg, iechyd a chyflogaeth.

Cyflawniadau a pherfformiad

Gwaith Ymchwil a Gwerthuso

Roedd y ddau ddarn o waith mwyaf a wnaed gan y tîm ymchwil dros y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Gwnaethom gwblhau gwerthusiad o'r diweddariad o'r strategaeth awtistiaeth i Gymru a datblygu gwasanaeth awtistiaeth integredig ym mhob ardal awdurdod iechyd. Mae awtistiaeth yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd person, gan gynnwys cyflogaeth, ac aeth y gwerthusiad ati'n uniongyrchol i ddefnyddio profiadau pobl awtistig a'u teuluoedd ynghylch y cymorth y gallent ei gael[1]
- Gwnaethom gwblhau ymchwil i anghenion cymorth cyflogaeth a sgiliau ffoaduriaid a cheiswyr lloches yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys cyfweld â thros 450 o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yng Nghymru. Cafodd un ar bymtheg o ffoaduriaid eu cyfogi a'u hyfforddi er

[1] https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-05/evaluation-of-the-integrated-autism-service-and-the-autism-spectrum-disorder-strategic-action-plan-final.pdf; https://llyw.cymru/gwerthusiad-gwasanaeth-awtistiaeth-integredig-cynllun-gweithredu-strategol-anhwylderaur-sbectrwm-awtistig-terfynol

mwyn helpu gyda'r cyfweliadau. Bydd yr ymchwil yn llywio sut y caiff cymorth ei strwythuro yn y dyfodol.

Mae'r tîm ymchwil hefyd wedi gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol i ddarparu gwerthusiadau sy'n helpu i ddatblygu eu gallu a'u hadnoddau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a chynaliadwy. Rydym yn darparu cymorth gwerthuso i Gofalwyr Credu, Anabledd Powys, Age Concern Powys, Cyngor ar Bopeth Powys, RVS (partneriaid yn y prosiect Cysylltu Cenedlaethau); Theatr Spectacle; Cerdd Gymunedol Cymru; yr Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau (rhaglen Buddsoddi Lleol); a SOVA.

Yn ogystal â'n gwaith ymchwil a gwerthuso gyda'r sectorau gwirfoddol a chymunedol, mae Pobl a Gwaith wedi parhau i gynnull Talwrn, grŵp anffurfiol o arweinwyr y sector gwirfoddol o bob rhan o Gymru. Mae aelodau Talwrn yn cwrdd yn rheolaidd i rannu dysgu o waith ei gilydd, rhoi cymorth a her feirniadol a gweithio i feithrin gallu ac adnoddau yn sector gwirfoddol Cymru. Mae Talwrn hefyd yn cynnig cymorth adolygu gan gymheiriaid i sefydliadau sy'n ceisio codi arian o ymddiriedolaethau a sefydliadau elusennol. Eleni cyhoeddodd Talwrn gyfres o bapurau a ysgrifennwyd gan aelodau ar rai o'r materion allweddol sy'n effeithio ar sector gwirfoddol Cymru[2].

Ymchwil PhD

Mae Pobl a Gwaith wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru i ddatblygu eu potensial. Wrth fynd ar drywydd hyn rydym wedi bod yn cefnogi dau ymgeisydd PhD dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae'r ddau wedi bod yn ymchwilio i faterion sy'n gysylltiedig â chyfranogwyr mewn prosiectau Pobl a Gwaith yn y gorffennol. Edrychodd Jack Watkins ar ddyhead a'i rôl o ran

[2] http://talwrn.org.uk/wp-content/uploads/2018/08/Talwrn-papers.pdf

llunio bywydau pobl ifanc, gan ddefnyddio profiadau a myfyrdodau pobl a fu'n ymwneud â Pobl a Gwaith dros yr ugain mlynedd diwethaf neu fwy.

Mae Pobl a Gwaith wedi cyllido'n rhannol ymgeisydd PhD wedi'i gefnogi gan ESRC, Rhiannon Morgan, ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae Rhiannon wedi cyfweld â rhai pobl ifanc y buom yn gweithio gyda nhw hyd at ddeng mlynedd yn ôl i edrych ar le a'i ddylanwad ar fywydau pobl ifanc.

Gwaith Prosiect

Mae'r rhan fwyaf o waith cymunedol Pobl a Gwaith yn canolbwyntio ar strategaeth 10 mlynedd sy'n seiliedig ar le i weithio yn y ddau Gwm Rhondda, gweithio gydag angerdd pobl leol am y Rhondda i gynorthwyo arweinyddiaeth yn y gymuned. Daeth cam cyntaf ein gwaith yn y Rhondda i ben yn 2018 ac rydym wedi bod yn pwyso a mesur, edrych ar effeithiau, a meddwl am y cam nesaf.

Prosiect What We Say

Gwnaeth y prosiect, a ariannwyd gan Sefydliad Esmée Fairbairn, gynorthwyo pobl ifanc i drafod materion sy'n bwysig iddynt. Gweithiodd 145 o bobl ifanc o'r Rhondda, ac ychydig mwy o Gaerdydd, ar ymchwiliadau a oedd yn amrywio o hiliaeth, rhywedd, iechyd meddwl, effeithiau dementia, i dyfu i fyny LGBTQ+ yn Rhondda.

- *Nid oeddwn yn gwybod llawer am y pwnc a'r materion hyd nes i ni gynnal rhywfaint o ymchwil.Nid oeddwn yn sylweddoli mor wahanol oedd bywyd i fenywod hŷn ond nawr rwy'n sylweddoli hynny, ac mae wedi newid fy safbwynt yn llwyr.*
- (menyw ifanc sy'n ymwneud ag edrych ar sut mae bywyd wedi newid i fenywod yn y Rhondda dros y ganrif ddiwethaf)

Datblygodd y bobl ifanc sgiliau newydd i'w helpu i ddadansoddi llawer iawn o wybodaeth a deall yr hyn roedd yn ei olygu. Er enghraifft, trafododd un grŵp farn am hiliaeth, a phrofiadau o hyn, o gymunedau gwahanol gyda thros 900 o blant a phobl ifanc a 70 o oedolion. Edrychodd pobl ifanc eraill ar ddeall materion iechyd meddwl a chyfwelwyd â 237 o blant 11-12 oed a 32 o bobl ifanc 16-17 oed yn eu hysgol, gyda rhai o'u cyfoedion yn dilyn y gwaith hwn gydag archwiliad wedi'i dargedu'n fwy o iechyd meddwl a dynion (oedolion a phobl ifanc).

- *A ninnau bellach wedi rhoi ein barn a'n canfyddiadau, efallai fod oedolion wedi cael eu hysbrydoli i ddechrau prosiectau newydd sy'n cynnwys pobl ifanc, gan ganolbwyntio ar iechyd meddwl*
  (pobl ifanc a edrychodd ar iechyd meddwl yn eu hysgol)

Gweithiodd y bobl ifanc gydag uwch arweinwyr polisi yn Rhondda Cynon Taf, gwasanaethau iechyd meddwl, gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sylfaenol a Llywodraeth Cymru. Gwnaethant argymhellion i ysgolion, gwneuthurwyr polisi a chymunedau ar, er enghraifft, sut i fynd i'r afael â hiliaeth, gan ganolbwyntio ar waith teulu cyfan fel modd o fynd i'r afael â'r ffordd y caiff agweddau hiliol eu trosglwyddo drwy deuluoedd; ar sut y gall ysgolion weithio gyda theuluoedd i ddeall yn well achosion a symptomau problemau iechyd meddwl a chefnogi llesiant mewn ysgolion; a chofnodi profiad byw pobl ifanc LGBT+ yn y Rhondda. Mae effaith y gwaith wedi'i deimlo'n uniongyrchol gan y bobl ifanc – mae rhai wedi dod yn wirfoddolwyr, mae chwech wedi dod o hyd i gyflogaeth ac eraill wedi siarad am sut mae'r gwaith wedi eu helpu i feddwl am eu dyfodol, gan ddylanwadu ar ddewisiadau.

- *Roedd yn brofiad da a dysgais lawer am fyw'n iach*
- *Roedd yn fy ngalluogi i gael gwell dealltwriaeth o sut i aros yn gadarnhaol ac i annog eich cyfoedion hyd yn oed pan fydd hi'n anodd*

- *Mae'n bendant wedi fy helpu oherwydd yn y dyfodol byddaf yn gallu gweithio gydag eraill mewn prosiect tîm*

Play It Again Sport

Tua 150 o blant o 7 ysgol mewn gŵyl aml-gampau dros yr haf

Rydym wedi datblygu dull cyfannol o ran ymarfer corff, iechyd a ffitrwydd dros y blynyddoedd diwethaf yn y Rhondda, gyda chymorth gan Sefydliad Rank. Mae'r gwaith wedi cynnwys cefnogi Rygbi dan Gerdded i bobl hŷn (gan helpu i sefydlu tri grŵp); cefnogi rhai mamau ifanc i ddatblygu grŵp ffitrwydd sy'n seiliedig ar rygbi o blant 3-6 oed; cynnal prosiect Hyrwyddwyr Her (gyda chyllid Plant mewn Angen) sy'n cymryd grŵp o bobl ifanc drwy raglen ffitrwydd i gyflawni her grŵp. Rydym wedi datblygu a chefnogi gwyliau chwaraeon i blant ysgolion cynradd ar draws y Rhondda gan gynnwys 10 ysgol a thua 800 o blant gan ddefnyddio cwpl o gyfleusterau chwaraeon lleol.

Codod hyfforddai ifanc a gyflogwyd drwy raglen Aspire Sefydliad Rank bryderon ynghylch sut roedd rhai o'i gymuned wedi nodi bod cost offer

chwaraeon yn rhwystr gwirioneddol i gymryd rhan mewn ymarfer corff. Cafodd y syniad gwych o ofyn i bobl leol i roi dillad ac esgidiau nad oeddent yn eu defnyddio mwyach er mwyn i'r rhain gael eu rhoi, neu eu gwerthu am bris bach, i bobl yn y Rhondda. Ar ôl ambell dro trwstan, dechreuodd Play It Again Sport (PIAS), sef menter gymdeithasol ailgylchu offer chwaraeon, weithio gyda Too Good To Waste, menter gymdeithasol ailgylchu nwyddau cartref yn y Rhondda. Gwnaeth rhodd fawr gan glwb chwaraeon helpu i godi ymwybyddiaeth o'r fenter ac, yn 2018, mae wedi derbyn dros £11,000.

Rygbi dan gerdded Glowyr Rhondda Uchaf ym Mharc Treherbert

Defnyddiwyd elw i gefnogi cyfleoedd ymarfer corff yn y Rhondda gan gynnwys cyllid ar gyfer rygbi dan gerdded, gwyliau chwaraeon rhwng ysgolion a chefnogi gwirfoddolwyr profiad gwaith o'r ysgol leol. Mae PIAS hefyd wedi darparu eitemau am ddim i dimau chwaraeon lleol (e.e. bibiau hyfforddi ar gyfer tîm pêl-droed) ac unigolion (e.e. esgidiau ar gyfer plentyn ysgol gynradd ar ôl atgyfeiriad gan athro). Rhoddwyd gwobr i PIAS am fod yn ‘Fenter Gymdeithasol Eithriadol’ gan Academi Gynaliadwy Cymru yn 2018 ac mae newydd sicrhau cyllid o £10k

gan fenter Profit for Good Rank (gyda'r addewid o ragor o arian cyfatebol os yw'r fenter gymdeithasol yn parhau i gynyddu ei helw). O fis Mawrth 2019 dechreuodd PIAS fasnachu mewn nwyddau chwaraeon a gwnaeth elw da ar fuddsoddiad mewn tri mis yn unig, gan werthu miloedd o ddillad chwaraeon yn y Rhondda.

Yn 2019 sicrhaodd PIAS grant gan raglen Profit for Good Sefydliad Rank a fydd yn helpu i gyllido datblygu busnes a gwaith marchnata. Mae hefyd wedi sicrhau cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i dalu am reolwr busnes am 3 blynedd i brofi dichonoldeb y busnes yn llawn a gweithio gyda phobl leol i ddatblygu'r gallu a'r adnoddau i'w redeg fel menter gymdeithasol annibynnol yn y dyfodol.

Technoleg Newydd

Expo Gemau Hydref 2018 – 10 chwaraewr ar 5 sgrîn

Yn ôl amrywiaeth o ffynonellau yn y sectorau technoleg ddigidol, addysgol a'r sector cyhoeddus, De Cymru yw'r ail ardal sy'n tyfu gyflymaf o ran y diwydiant

digidol y tu allan i Lundain.[3] Mae'r prifysgolion yn yr ardal, busnesau a llywodraeth yn cydweithio mewn adolygiad o'r sector[4] a fydd yn nodi rhai o'r gofynion penodol mewn perthynas â'r sgiliau sydd eu hangen yn y dyfodol a meysydd twf. Mae TechNation yn adrodd y bu twf o 1000 o swyddi yn yr ardal rhwng 2014 a 2017. Mae adran Cyfrifiadureg Prifysgol Caerdydd wedi dweud wrthym eu bod wedi gorfod gweithio'n galed iawn ychydig flynyddoedd yn ôl i ddod o hyd i leoliadau mewn diwydiant ar gyfer myfyrwyr astudiaethau cyfrifiadur. Nawr mae cwmnïau'n ciwio wrth eu drws i ddod o hyd i fyfyrwyr o ansawdd ar gyfer lleoliadau a swyddi. Mae ehangu Academi Feddalwedd Prifysgol Caerdydd yng Nghasnewydd a datblygu eu rhaglen Llysgennad STEM i hyrwyddo pynciau STEM ymhlith pobl ifanc mewn ysgolion a cholegau (gan annog mwy o astudiaethau cyfrifiadureg yn ogystal â phynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg eraill) yn dyst i dwf y diwydiannau digidol yn Ne Cymru. Ar y llaw arall, prin yw'r athrawon cyfrifiadureg wedi'u hyfforddi'n llawn, sydd â chymwysterau gradd yn yr ardal, ac mae'r brifysgol wedi dweud wrthym eu bod weithiau'n cael anhawster cael mynediad i bobl ifanc leol drwy ysgolion a cholegau.

Gwnaethom gydnabod, gyda phartneriaid, bwysigrwydd technoleg newydd ar gyfer economi Cymru a'r diddordeb sydd gan lawer o bobl ifanc mewn caffael sgiliau yn y maes hwn. Gyda chymorth gan Sefydliad Moondance, gwnaethom sefydlu Appening Rhondda, prosiect sy'n cynnig cyfle i bobl ifanc i gynhyrchu Ap, ysgrifennu cod a datblygu gemau.

---

[3] https://technation.io/insights/report-2018/cardiff/; https://www.uktech.news/tech-hubs/wales/tech-in-wales-the-2017-roundup-20180104; http://hrnews.co.uk/south-wales-fast-becoming-uk-tech-hub-digital-jobs-see-regional-boom/; http://www.cardiff.ac.uk/news/view/1381453-national-software-academy-expands

[4] cymharer http://www.uniswales.ac.uk/media/Unis-Wales-response-to-digital-innovation-review-20181102.pdf a hefyd gwaith Tech Nation, rhwydwaith technoleg ddigidol a sefydliad ymchwil (sy'n nodi bod 45,000 wedi'u cyflogi yn y sector yng Nghymru bellach ac mae hyn yn tyfu drwy'r amser):
https://technation.io/about-us/national-network/wales/

Datblygodd Appening Rhondda ar ôl sylweddoli bod nifer o bobl ifanc yn y Rhondda a oedd yn angerddol am y sector digidol nad oeddent yn cael y cyfle i ddatblygu eu hangerdd drwy gyfleoedd addysg neu brofiad gwaith.

Dros y tair blynedd diwethaf mae Appening Rhondda wedi cyflwyno pobl ifanc i sgiliau, profiad a chyflogaeth mewn technoleg newydd. Mae wedi dal diddordebau presennol a helpu pobl ifanc i ddeall sut y gallent ddefnyddio'r diddordebau hynny i greu gyrfa yn y dyfodol. Mae'r prosiect wedi darparu modelau rôl lleol, pobl sy'n ennill incwm o wneud gwaith y maent wrth eu bodd yn ei wneud. Mae chwech o gyfranogwyr y prosiect wedi dod o hyd i waith ym maes technoleg newydd eu hunain. Mae wedi cefnogi pobl sy'n addysgu TG – gan gynnwys staff Coleg y Cymoedd a aeth i'w Jam Gemau eu hunain gyda'r prosiect – gyda dealltwriaeth o sut i ymgysylltu â phobl ifanc yn fwy effeithiol. Mae hefyd wedi darparu model o sut y mae gweithgareddau sy'n cael eu llywio'n lleol sy'n heriol iawn, yn cynnig mynediad i arbenigedd gwirioneddol a datblygiad sgiliau dwys yn gallu denu pobl ifanc o'r cymunedau tlotaf.

“Roeddwn i'n dwlu dysgu sut i greu fy ap fy hun a sut i'w farchnata. Gwnaethom gyfarfod â'r cleient a chael gweld sut bydd pethau pan fydda i'n hŷn. Roedd yn wych gweithio gyda datblygwyr proffesiynol a chael fy nhrin fel oedolyn. Mae'r wythnos hon wedi rhoi gwybodaeth i mi ynghylch beth rwyf am ei wneud yn y dyfodol.” cyfranogwr

Ers dechrau Appening Rhondda ym mis Gorffennaf 2015, cafwyd:

- 16 o ddigwyddiadau (wythnosau ap, penwythnosau Jam Gemau ac Expo Gemau)
- 140 o ymgeiswyr
- 90 o gyfranogwyr mewn wythnosau apiau/Jamiau Gemau
- 90 o gyfranogwyr mewn 2 Expo Gemau

- 105 o fyfyrwyr coleg ychwanegol a gafodd eu cynnwys drwy sgyrsiau
- 6 chyfranogwr wedi dod o hyd i waith
- 2 gyfranogwr wedi mynd i'r brifysgol
- Sefydlwyd 4 Clwb Codio Rhondda a chefnogwyd 1 clwb ysgol i ddatblygu sgiliau codio, gan gynnwys dros 60 o bobl ifanc
- Tair blynedd a hanner o bartneriaeth gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector gyda 3 busnes, 2 brifysgol, 7 elusen, 6 ysgol, 1 coleg addysg bellach, 1 llyfrgell
- Cafodd cyfanswm o tua 400 o bobl ifanc eu cynnwys i gyd

'Dwi'n methu credu bod apiau fel hyn yn cael eu gwneud yn y Rhondda!"

'Nid oeddwn yn disgwyl cwrdd â chleient go iawn.'

'Gallai'r ap hwn fod o gymorth mawr i lawer o bobl.'

Sylwadau gan gyfranogwyr

Wrth wraidd cenhadaeth seiliedig ar le Pobl a Gwaith yw'r gred y dylai pawb yn y Rhondda gael cyfle i ffynnu (mewn addysg, cyflogaeth a llesiant), beth bynnag fo'u cefndir neu'r ardal lle maent yn byw. Rydym wedi bod yn gweithio yn y Rhondda am dros ugain mlynedd gyda'r bwriad pendant o weithio gydag angerdd, uchelgeisiau a breuddwydion pobl leol.

Gyda chymorth Pen y Cymoedd, gwnaethom gyflogi person ifanc lleol i'n helpu i sefydlu a chefnogi clybiau codio yn y gymuned ac mewn ysgolion. Sefydlwyd chwe chlwb codio. Cysylltodd James Hall o Pobl a Gwaith â chydweithwyr o Brifysgol Caerdydd a gefnogodd y ddau Expo Gemau ym mis Awst a mis Hydref

2018. Dyfarnwyd cyllid i'r Brifysgol i greu cynllun Llysgennad STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg) i hyrwyddo pwysigrwydd pynciau STEM mewn lleoliadau addysgol a chymunedol. Gwnaethant gynnig chwe wythnos o fentora a chymorth codio i dri chlwb codio cymunedol yn y Rhondda yn ogystal â helpu i gefnogi unigolyn ym mhob clwb codio i ddod yn 'hyrwyddwr codio digidol' a fydd yn gallu arwain pan fydd y Llysgenhadon STEM wedi symud i leoliad arall.

Yn 2019 sicrhaodd Appening Rhondda grant gan Gronfa Gymunedol Pen y Cymoedd i ddatblygu'r model clwb codio ymhellach a meithrin gallu ac adnoddau yn y Rhondda i groesawu technoleg newydd. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys datblygu rôl ganolog James Hall – ein rheolwr prosiect – wrth 'gysylltu'r dotiau', gan ddod ag addysg, y gymuned, busnes a diddordebau cymdeithasol a rhanddeiliaid at ei gilydd i ganolbwyntio ar sut y gallant weithio gyda'i gilydd i gefnogi pobl ifanc mewn technoleg newydd. Bydd grant pellach gan Sefydliad Moondance yn caniatáu i elfen o'r gwaith ganolbwyntio ar fenywod ifanc a thechnoleg newydd.

Rhondda Gryfach

Rydym yn parhau i weithio gyda phobl leol a sefydliadau cymunedol yn y Rhondda i gefnogi arweinyddiaeth a gweithgareddau lleol. Rydym yn cefnogi pobl sydd wedi sefydlu gweithgareddau chwaraeon a ffitrwydd; pobl sy'n rhedeg clybiau codio; a phobl sydd am greu eu strwythurau cymorth cymdeithasol eu hunain.

Yn 2019 cawsom grant gan Sefydliad Garfield Weston yn sail i'n gwaith gyda chymunedau lleol yn y Rhondda. Bydd y gwaith hwn yn ein galluogi i ddatblygu

ffyrdd o adeiladu gweithgareddau hunangynhaliol a chefnogi arweinyddiaeth leol. Bydd ein prosiect newydd Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn ychwanegu ffocws ar yr economi sylfaenol a sut y gall hyn gael ei ddatblygu gyda dull seiliedig ar le, yn ychwanegu at y gwaith hwn hefyd.

Gweithio ledled Cymru

Mae Pobl a Gwaith yn parhau i gynnull Talwrn, sef rhwydwaith anffurfiol o arweinwyr y sector gwirfoddol o bob rhan o Gymru. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob chwarter ac yn canolbwyntio ar gymorth gan gymheiriaid ac adeiladu gallu ac adnoddau yn sector gwirfoddol Cymru. Mae croeso mawr i bobl ymuno â'r grŵp a gallant wneud hynny drwy gysylltu â Sarah Lloyd-Jones.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein gwaith seiliedig ar le drwy ganolbwyntio ar gefnogi arweinwyr cymunedol i ddatblygu'r sgiliau, hyder ac adnoddau sydd eu hangen arnynt i wneud newidiadau yn eu cymuned. Byddwn yn parhau i weithio yn y Rhondda ond rydym hefyd yn gweithio gydag wyth sefydliad o bob rhan o Gymru i dynnu sylw at sut y gall gwaith seiliedig ar le annog a meithrin arweinwyr cymunedol a sut y gall cymunedau helpu i lunio'r economi sylfaenol. Bydd y prosiect newydd hwn – o'r enw Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn cefnogi pobl sy'n angerddol ynghylch eu lle ac sydd â syniadau grymus am sut i wneud iddo ffynnu.

Y bobl a'r gwaith yn Pobl a Gwaith

Gwir gryfder Pobl a Gwaith yw'r bobl sy'n ymwneud ag ef – boed yn staff, ymddiriedolwyr, partneriaid, cyfranogwyr prosiect neu aelodau o'r gymuned sy'n ein cefnogi.

Mae Hibah Iqbal wedi gweithio gyda ni am y tair blynedd diwethaf, ac mae'n symud ymlaen ym mis Medi 2019. Byddwn yn gweld ei heisiau'n fawr Isod, mae Hibah yn crynhoi ein blwyddyn yn ei ffordd arbennig ei hun -

> It's been an eventful year at People and Work HQ,
> Here's a poem to summarise what we've been up to!
>
> While we've had a few financial fluctuations,
> We've done more than our fair share of research and evaluations.
> Notably, on the refreshed autism strategy and the development of an IAS,
>
> In each health authority area and support people could access.
> We interviewed 450 refugees and asylum seekers living in Wales,
> To investigate their employment and skills support need details.
>
> We've continued to work with a number of voluntary organisations,
> Not only to develop their capacity but help strengthen their foundations.
> Credu Carers and Spectacle theatre but to name a few,
> And Invest Local should be done by the time I'm forty-two…
>
> The work of Talwrn continues through meetings and a series of papers,
> On third sector issues in a world of public sector skyscrapers.
> We've also supported two PhDs over the last few years,
> On participants in past projects- their aspirations and fears.
> What We Say offered young people in Rhondda the space,
> To carry out their own research into problems that they face.
> From racism, gender, mental health and LGBT issues,
> It's about more than just listening and reaching for the tissues.
>
> Play It Again Sport has gone from strength to strength,
> With support from Rank Foundation at only an arm's length.
> Joining forces with the social enterprise Too Good To Waste,

And Delboy of the Rhondda was very well placed.
We might not know where PIAS will be tomorrow,
But look forward to seeing how big it can grow.

And of course, Appening Rhondda has achieved a fair bit,
Since it started in 2015 the Game Jams have been a hit.
The outcomes achieved have been more than anecdotal,
400 young people have been engaged in total.

We even migrated offices from Tabbs in Porth,
To Treorchy where the project side will be henceforth.
Andrea and Mark may have gone but we gained young Jay,
Who recently became a father, back in May!
Ellis and Celia also moved on but everything's still on track,

And we're certainly very happy to have our trustee Jan back!
Hopefully this poem has been enough to join a few dots,
It's definitely a challenge when we've done lots and lots!
Last but not least, dare I forget the most important thing,
Far bigger than anything, that Brexit could bring.
The biggest news to share since last Winter…
Is our newest arrival; the fancy new scanner and printer!

Strwythur, llywodraethu a rheoli

Mae'r elusen yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac nid oes ganddo gyfalaf cyfrannau.

Dyma'r ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr at ddiben cyfraith cwmnïau, yn 2019:

Rosa Robinson (Cadeirydd)

Archie McCaffer (Is-gadeirydd)

Phil Watkins (Trysorydd)

Gordon Davies

Jan Huyton

Christala Sophocleous

Ged McHugh

Arian

Incwm: yr incwm yn 2018 (blwyddyn galendr) oedd £295,891 y daeth ychydig dros 29% ohono o grantiau a'r gweddill o incwm o waith gyda'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol.

Gwariant: gwariwyd £369,149 yr oedd llai na 3% ohono ar gostau cymorth a llywodraethu. Roedd y gwariant uwch na'r incwm oherwydd bod grantiau a dalwyd yn 2017 wedi'u cario drosodd i 2018.